COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mehefin 8fed, 2016 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Alun Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, O. Hefin Roberts, R. Phillip Roberts, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

William B. Williams

ABSENNOL

Erfyl W. Roberts

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Cyng. R. Phillip Roberts ar ôl ei salwch diweddar.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fai 11eg, 2016 yn gywir ar ôl cywiro:

i) bod rhaid newid noson cyfarfod mis Gorffennaf o nos Fercher, y 27ain i nos Lun, y 25ain oherwydd nad yw'r Ganolfan ar gael ar y blaenaf
ii) mai'r unig daliadau a wnaed ym mis Mai oedd cyflog y Clerc – cadarnhawyd talu anfoneb Datrys ym mis Ebrill.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/0199/39/LL	Codi bolard a giât amddiffynfa fôr – Trac ger Villa Roccasinibalda (Min-y-Don), Aber-soch – **Gwrthwynebir y cais hwn yn bendant oherwydd natur hanesyddol y llwybr. Enillodd y Cyngor hwn Ymchwiliad Cyhoeddus ym mis Tachwedd 1986 – y ddogfennaeth ar gael os oes angen – i'w gadw ar agor**
C16/0453/39/LL	Estyniad deulawr cefn – Dryslwyn, 16 Maes Gwydryn, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/0472/39/LL	Dymchwel lolfa haul presennol a chodi estyniad unllawr blaen – Clogwyn, Bwlchtocyn **– Cefnogir**

C16/0486/39/LL	Adeiladu estyniad unllawr at ochr dde yr eiddo (Cynllun Diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd dan Gais Rhif C15/0664/39/LL) – Ger y Traeth, Bwlchtocyn **– Cefnogir**
C16/0511/39/LL	Estyniad ochr (Cynllun Diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd dan Gais Rhif C11/1156/39/LL) – Llwyn Impia, Mynytho **– Cefnogir**
C16/0546/39/LL	Codi cwt glan môr yn lle un a ddifodrwyd mewn storm – Cwt Glan Môr 29, Borth Fawr, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/0547/39/LL	Estyniad deulawr cefn a balconi – The Summer House, Lôn Golff, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/0552/39/MG	Cais Diwygiedig ar gyfer materion a gadwyd yn ôl er mwyn diwygio dyluniad y tŷ – Tir gyferbyn â Cartrafle, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – **Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch**

- Darganfyddod y Clerc y ddau ddrws ar agor pan aeth i gyfnewid y bagiau arian drannoeth Llungwyn ac, o ganlyniad, ychydig o arian a gafwyd o ystyried y prysurdeb oherwydd y tywydd braf. Awgrymwyd y dylid gosod arwydd yn gofyn y sicrheir y cauir y drysau bob tro.
- Derbyniwyd cwynion am yr ysbwriel tu allan i'r toiledau ac, yn dilyn trafodaethau ar y safle, cafwyd datrysiad i'r broblem – gwagir y biniau yn ddyddiol yn ystod y gwyliau.

b) **Gwefan y Cyngor**

Anfonwyd mwy o ddogfennau, yn dilyn gwirio'r ochr Saesneg.

c) **Glanhau Afon Soch**

Anfonwyd cynllun graddfa 1:1250 at Dic, gyrrwr Roberts Ffestiniog, yn dilyn archebu copi oddi wrth Aspect oherwydd na ellid ei gael yn 1:500 – cadarnhawyd ad-dalu'r Clerc o £48.19 – ond, ni dderbyniwyd ymateb hyd yma.

ch) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/Llwybr Estyllog at lan Afon Soch**

i) Cynhaliwyd cyfarfod ar y safle – Paul Williams, Datrys; Dylan Roberts, contractwr; Sue Williams, Swyddog CNC; Cadeirydd, Cyng. JG a'r Clerc. Trefnu i Celtest ddod i dyllu hefo Dylan a dylunir dyblu'r stanciau a olyga y cynydda'r costau. Derbyniwyd anfoneb am £620.00 oddi wrth Datrys ond, ni chafwyd cyfle i gysylltu am beth – ni thelir hi hyd nes derbynnir ateb.

ii) Ni dderbyniwyd ymateb i'r cais am wybodaeth am Wayleave y cêbl sydd ar dir y Cyngor o ddatblygiad yr Harbwr.

d) **Gohebiaeth 8 aii) Un Llais Cymru (ULlC)**

O'r diwedd, bron i flwyddyn yn ddiweddarach, derbyniwyd llythyr oddi wrth Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr. Ymddiheura am yr oedi oherwydd baich sylweddol a ysgwydda. Ychwanega y ceisir ymateb i bob gohebiaeth yn y Gymraeg ac y caiff y cynghorau sy'n ei defnyddio y sylw haeddiannol.

dd) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd a dychwelwyd y datganiad newydd i'w gyflwyno i'r Gofrestrfa Tir ar gyfer 20 Maes Awel.

e) **Gohebiaeth 9h) Cyng. Selwyn Griffiths – Swyddfa Treth Incwm Tŷ Moelwyn, Porthmadog**
Derbyniwyd ateb i'r llythyr a anfonwyd yn gwrthwynebu cau'r uchod – noda mai'r bwriad yw creu tair swyddfa ar ddeg modern yn cynnwys Caerdydd. Gwerthfawrogir gwaith caled ac ymroddiad gweithwyr swyddfa Porthmadog a phan agora'r swyddfa newydd yn 2019 – 2020 parheir â Thîm Gofal Cwsmeriaid Cymraeg.

f) **Gohebiaeth 8c) Archwiliad Cyfrifon 2015 – 2016**
Ni dderbyniwyd y dogfennau'n ôl erbyn heno – caiff John D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, drafferth cysoni'r cyfrifon. O ganlyniad, bydd rhaid cynnal cyfarfod arbennig i'w cadarnhau, gan na chynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor tan Orffennaf 25ain; yr 11eg yw eu dyddiad cwblhau.

ff) **Cyng. John B. Hughes – Tai Fforddiadwy Cornwall, Mynytho**
Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach ar drefnu cyfarfod agored yn Neuadd Mynytho brynhawn heddiw, felly cymerir na threfnwyd un – cysylltir i holi pam.

g) **8. Mynwent y Bwlch**
Derbyniwyd gwybodaeth nad oes unrhyw fynwent lleol yn gwerthu plot claddu ymlaen llaw.

ng) **11. Gohebiaeth ch) Cefnogaeth Gorfforaethol – Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu – Cyfle i Gynnig Sylwadau ar Ardaloedd Cymunedol Gwynedd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
Ni anfonwyd sylwadau, oherwydd yr ansicrwydd a'r diffyg dealltwriaeth ohonynt o'r rhwydwaith o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fydd yn gyfrifol am weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

5. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Dymchwel Tai yn Aber-soch**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Uwch Reolwr Polisi Cynllunio Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, yn nodi mai mater i'r awdurdod cynllun lleol ydi gwneud penderfyniadau. Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth yr Adran Gynllunio nac Aelodau Seneddol a'r Cynulliad Lleol.

b) **Coed y Fach a Giât/Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Cysylltwyd â'r Uwch Swyddog Gorfodaeth yn dilyn derbyn ymholiadau parthed y coed ac ymatebodd drwy ddweud er yr ymwelodd â pherchennog Y Fach i drafod y mater "y gwir amdani ydi fod y sgwrs yn troi ar ewyllys da yn hytrach na gorfodi oherwydd bod y caniatâd ar y safle mor hen. Nid oes mwy y gallaf ei wneud yma." Bwriadai ymweld â Castell i weld y fynedfa ond, ni dderbyniwyd adroddiad ers hynny.

6. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Dŵr Cymru – Dŵr a Charthffosiaeth yn dod o 'fanol' ger Bryncelyn Isaf, Cilan, a Than-y-Bryn, Sarn Bach**
Dim ond cydnabod derbyn e-bost wnaethpwyd.

b) **Golau Stryd ar Lôn Hawen, Aber-soch**
Derbyniwyd cadarnhad archebu'r lamp ac anfonir anfoneb maes o law.

c) **Lloches Bws Nanhoron**
Dywedodd EWR fod ganddo dâp pwrpasol fuasai'n gwneud ar gyfer rhybuddio bod 'Mynedfa Isel' i'r uchod.

7. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd ateb pellach oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, ar wahân i ch) na Seimon Jones (e) parthed yr isod:

a) ***Shanty, Pen Bennar***
b) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
c) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
ch) ***Torri'r Llwybrau***
  i) Adroddodd y Cadeirydd y cafodd sgwrs â Dewi Owen.
  ii) ***Cytundeb*** – Gan na lwyddwyd hysbysebu tendr, gofynnir i'r contractwr ddechrau ar y gwaith.
d) ***Un Llais Cymru (ULlC) –*** i) ***Ramblers Cymru – Ydych chi eisiau gwarchod a gwella'r mannau lle mae pobl yn cerdded yn eich ardal chi?***
dd) ***Giât Fochyn yn Riffli (Llwybr 12)***
e) ***Taith Gerdded Ddigidol***
f) ***Llwybr yr Arfordir ger y Nant*** – hysbyswyd yr Adran ei fod yn wlyb iawn.

8. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
  i) ***Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol***
  Mae'n ofyniad statudol y cyhoedda ac adrodda pob cyngor yn flynyddol wrth yr uchod ar lwfansau a threuliau a dalwyd i gynghorwyr cymuned a thref erbyn Medi 30ain bob blwyddyn. Mynna, hefyd, at ddibenion tryloywder, y cyhoeddir adroddiadau 'dim' ar eu gwefannau/hysbysfyrddau a'u cyflwyno i'r Panel. Ni thalwyd dim i gynghorwyr y Cyngor hwn.
  ii) ***Graddfeydd Cyflogau Clercod 2016 – 2018***
  Derbyniwyd copi o'r graddfeydd newydd er gwybodaeth. Angen trafod cyflog y Clerc.

b) **Cyng. Wyn Williams – Pwyllgor Craffu Cymunedau**
Copi, er gwybodaeth, o ohebiaeth rhwng WW a'r Cyng. John Wynn Jones, Arweinydd Portffolio, ar doiledau cyhoeddus a chasglu gwastraff gwyrdd a drafodid yn yr uchod.

c) **Yr Arolygiaeth Gynllunio – Apêl Tir ger Eglwys Sant Engan**

Gwrthodwyd yr apêl.

ch) **Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr Corfforaethol – Diwygio'r Côd Ymddygiad i Aelodau**
Gohebiaeth yn atgoffa cynghorau ddiwygio rhai agweddau o'r uchod yn dilyn y Gorchymyn a ddaeth i rym ar Ebrill 1af. Gwnaeth Cyngor Gwynedd eisoes ac amgaewyd gopi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn. Oherwydd ei bod yn ofynnol i bob Cyngor gyhoeddi rhybudd mewn papur newydd, yn unol ag Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000, yn datgan y diwygiwyd ei gôd a bod copi ar gael i'r cyhoedd ei weld. Er mwyn arbed costau i gynghorau cymuned a thref mae Cyngor Gwynedd yn fodlon eu cynnwys yn ei rybudd os cadarnheir y mabwysiadwyd y newidiadau – angen anfon copi o'r cofnod ataf erbyn Gorffennaf 1af. Penderfynwyd mabwysiadu'r newidiadau yn unol â'r Côd Ymddygiad Diwygiedig a hysbysir yr uchod o hynny.

12. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C16/0298/39/LL	Adeiladu pwll nofio awyr agored, ystafell beiriannau iddo, ynghyd â strwythur cegin haf yn cynnwys popty pizza a bbq a gwaith tirlunio – Blaen-y-Wawr, Lôn Engan, Aber-soch **– Gwrthodwyd**
C16/0376/39/LL	Modurdy ochr ac estyniad orendy un llawr cefn – 11 Afon y Felin, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0380/39/HY	Cyfnewid arwydd mynedfa – Tal-y-fan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

13. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Mehefin y Clerc (Rh/S 001998), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Williams a Williams – £184.50 (Rh/S 001996 – Glanhau draen wedi blocio yn y toiledau)
b) Dŵr Cymru – £281.11 (Rh/S 001997 – Cyflenwad dŵr a charthffosiaeth y toiledau)

Derbyniadau
a) Arian Mynediad y Toiledau – £310.30 (£24.10, £54.60, £125.00 a £106.60)
b) Cyllid a Thollau – £1686.76 (Ad-daliad TAW Hydref 1af, 2015 – Mawrth 31ain, 2016)

12. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Lun, Gorffennaf 25ain, 2016 am saith o'r gloch